

## Adroddiad Blynyddol 2016 - 2017



Croeso i grynodedb o adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2016-17. Mae'r adroddiad blynyddol yn cyflwyno'r hyn a gyflawnwyd yn 2016-17 i gwblhau'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 2016-20, nid popeth a wnaethom yn ystod y flwyddyn honno. Y blaenoriaethau hyn yw: cefnogi economi lwyddiannus, helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol, a defnyddio adnoddau'n ddoethach. Gwnaed 46 o ymrwymadau i gyflawni ein blaenoriaethau. Cyflawnwyd 32 ohonynt (bron 70%) yn llwyr, a llwyddwyd i gyflawni bron 11 arall (24%). Nodwyd hefyd 58 o ddangosyddion i fesur llwyddiant. O'r dangosyddion â tharged, cyrhaeddwyd y targed neu rhagorwyd ar y targed ar gyfer 59% ohonynt, ac ni chyrrhaeddwyd y targed ar gyfer 12.2% ohonynt o drwyth blewyn. O'r dangosyddion hynny na chyrrhaeddodd y targed, roedd 25% yn dangos gwelliant, roedd 45% yn ddangosyddion newydd a oedd yn ei gwneud yn anodd gosod targedau heriol ond realistig, a 15% arall yn rhai y dylanwadwyd arnynt gan amgylchiadau allanol. I ddarllen yr adroddiad llawn, ewch i wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk). Nodir rhai o'n llwyddiannau yn yr adrannau isod.

### Blaenoriaeth Un – Cefnogi economi lwyddiannus

#### Ein nodau oedd:

#### Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i fod yn llwyddiannus.

- Cefnogwyd 722 o bobl drwy ein rhaglenni Cymunedau dros Waith, Pontydd i Waith a Phrosiect Sgiliau Cyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr (BESP), gan ddarparu cyfleoedd i unigolion ddatblygu sgiliau, hyfforddiant, cymwysterau a lleoliadau gwaith. Ar y cyfan, llwyddodd 218 o bobl i gael cyflogaeth.
- Trefnwyd pedair prentisiaeth ar gyfer pobl ifanc yn ein rhaglen ysgolion y 21 ganrif a chrëwyd tair prentisiaeth barhaol yn ein strwythur TG.
- Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, llwyddodd pob un o'r plant sy'n derbyn gofal a oedd yn gadael yr ysgol, hyfforddiant neu gynlluniau dysgu yn y gweithle, i ennill cymwysterau allanol wedi eu cymeradwyo.
- Drwy gymorth gan ein Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid parhaodd nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ym Mflwyddyn 11 i ostwng yn raddol o 7.6% (2009) i 1.5% (2016).
- Gwelwyd cynnydd yn y ganran o ddisgyblion TGAU blwyddyn 11 a gyflawnodd y trothwy Lefel 2, o 59.7% i 61.7% a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 60.33%.
- Cynyddodd canran y disgyblion safon A a gyflawnodd y trothwy Lefel 3 (2 Safon A gradd A - E) o 97.6% i 98.3% eleni.
- Crëwyd mwy na 30 y swyddi yn ystod y cam adeiladu i adfer adeilad Jennings ym Mhorthcawl.

#### Creu amodau ar gyfer twf a mentergarwch

- Rydym yn parhau i weithio gyda Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr sydd ag 800 o aelodau erbyn hyn.
- Cynyddodd nifer y busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y Cynllun Talu wrth Ennill/TAW yn y fwrdeistref am y drydedd flwyddyn o 4,440 i 4,540.
- Cytunwyd ar y Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan Lywodraeth y DU ac mae'r hon yn ceisio darparu buddsoddiad o £1.2 biliwn yn y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf.

#### Creu canol terfi llwyddiannus

- Cynyddodd nifer yr ymwelwyr mewn canol trefi o 6,527,906 i 7,971,331 (Pen-y-bont ar Ogwr) ac o 5,013,457 i 5,055,306 (Porthcawl).
- Cynyddodd gwerth y cyfanswm gwariant blynyddol gan dwristiaid hefyd o £313 miliwn i bron £330 miliwn.
- Cwblhawyd Maes Parcio'r Rhiw ar amser ac yn unol â'r gyllideb.
- Gyda'i gilydd, roedd gwerth £31.5 miliwn o brosiectau adfywio canol y dref a ariannwyd yn allanol ar waith, neu'n cael eu datblygu, yn ystod y flwyddyn.
- Cymeradwywyd y cais cynllunio ar gyfer y ganolfan forol gwerth £7 miliwn yn rhan o Raglen Canolbwyntio Buddsoddiad ar Gyrcfan Porthcawl, gan ennill grant £1.1 miliwn gan y Loteri Fawr.

## Blaenoriaeth Dau - Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol

### Ein nodau oedd:

#### Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl ynghylch pa gymorth y maent yn ei dderbyn drwy ddarparu cyngor a gwybodaeth yn gynnar,

- Defnyddiwyd ein pwynt cyswllt newydd gan 2,108 o oedolion a 2,042 o blant er mwyn i bobl gael gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- Penodwyd 2 Gydgylltydd Cymunedol Lleol a gefnogodd 167 o bobl i fanteisio ar gyfleoedd cymunedol gan eu dargyfeirio o wasanaethau statudol.
- Roedd 80.2% o'r bobl yn teimlo eu bod wedi bod yn rhan o unrhyw benderfyniad a wneir am eu gofal a'u cymorth, ac roedd 86.6% yn fodlon â'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu derbyn.
- Roedd ein gwasanaeth ail-alluogi wedi cefnogi 394 o bobl hŷn neu bobl anabl i ddysgu neu ailddysgu sgiliau a thechnegau, ac ailafael yn eu hyder i reoli cymaint o'u tasgau bob dydd â phosibl ar eu pen eu hunain.

#### Lleihau'r galw drwy fuddsoddi mewn cymorth cynnar wedi'i dargedu a rhaglenni ymyrraeth,

- Canolbwyntiwyd ar leihau'n ddiogel nifer y plant sy'n derbyn gofal. O ganlyniad i hynny, mae 75.6% o'r plant sy'n derbyn gofal bellach yn aros gyda'u teuluoedd.
- Sefydlwyd model newydd o seibiannau byr ar gyfer plant anabl a'i sefydlu yn Bakers Way, a dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu darpariaeth 52 wythnos newydd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth iawn. Cafodd y teuluoedd/gofalwyr a'r bobl ifanc eu hunain eu cynnwys wrth gynllunio'r model newydd ar gyfer gwasanaethau Seibiant Byr.
- Datblygwyd amrywiaeth o wasanaethau llety a gwasanaeth cymorth ar gyfer symud ymlaen i bobl ifanc sy'n gadael gofal.
- Rhoddwyd cymorth i gyfanswm o 3,879 o unigolion / teuluoedd gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf trwy gydol y flwyddyn i helpu i leihau tlodi plant. O'r rhain, defnyddiodd 1,553 ohonynt brosiect a gomisiynwyd (cymorth un asiantaeth); cafodd 220 o deuluoedd gymorth am fod ag anghenion sy'n gysylltiedig ag anabledd a chofrestrodd 353 o deuluoedd ar gyfer cynllun gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu. Yn

ychwanegol at y rhain, dechreuodd 164 o bobl ifanc ac oedolion ar gyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant yn rhan o Raglen Ymgysylltu a Dysgu i Deuluoedd.

#### Cefnogi gofalwyr i barhau â'u swyddogaethau

- Cynhaliodd y Cydgysylltydd Gofalwyr Ifanc 51 o Asesiadau Gofalwyr Ifanc eleni a chafodd pob un ohonynt gerdyn adnabod Gofalwr Ifanc.
- Rhoddodd Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr 730 o eitemau o wybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- Yn yr awdurdod lleol, cynhaliwyd 277 o asesiadau o ofalwyr sy'n oedolion ac fe'u cynhwyswyd yn asesiad y person a oedd yn derbyn gofal.
- Cefnogwyd 250 o bobl i aros yn eu cartrefi drwy grantiau cyfleusterau i'r anabl, gan eu helpu i gadw eu hannibyniaeth.

#### Cefnogi'r trydydd sector, cyngorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol

- Ein cynllun oedd datblygu cyd-strategaeth ar gyfer y Trydydd Sector, ond mae'r gwaith hwn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni yn ystod 2017-18.
- Sefydlwyd gweithgor ar y cyd gyda Swyddfa Cyngor ar Bopeth i archwilio effeithiau diwygiadau lles yn y Fwrdeistref Sirol.
- Datblygwyd a chyhoeddwyd Siarter Cyngor Tref a Chymuned. Mae'r Siarter yn nodi sut y bydd yr holl gynghorau'n gweithio gyda'i gilydd i ategu'r berthynas weithio dda sydd eisoes yn bodoli ac ymrwymiad pob partner i gyflawni'r ddarpariaeth hon a chynnal cyfleusterau hamdden lleol.
- Darparodd y trydydd sector wasanaethau i 365 o bobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, pobl ag anableddau corfforol a phobl â phroblemau iechyd meddwl.

### Ein nodau oedd:

#### Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir

- Yn 2016-17, llwyddwyd i gyflawni £5.632 miliwn (75%) o'r gostyngiadau cyllidebol arfaethedig, a chyflawnwyd y gweddill, sef £1.845 miliwn, trwy gynilion amgen, cynyddu'r grant ac incwm arall, a rheoli swyddi gwag yn llym.
- Dywedasom y byddem yn datblygu o leiaf tair menter newydd i greu incwm. Ni lwyddwyd i gyflawni hyn oherwydd newidiadau rheoli mewnol, a arweiniodd at leihad dros dro o ran capasiti yn ogystal â newidiadau i gyfraith yr UE.

#### Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a'r defnydd ohonynt trwy ail-lunio ein systemau a'n prosesau

- Parhawyd i ddatblygu ein rhaglen Trawsnewid Digidol ag ystod o wasanaethau awtomatig a gwasanaethau ar-lein. Yn rhan o'n cynlluniau, ein bwriad oedd cyflwyno rhagor o wasanaethau ar-lein, ond roedd yn rhaid adnewyddu ein gwefan yn llwyr, sy'n gofyn am ragor o amser.
- Datblygwyd system integredig, gan ddod â systemau cyllid a chaffael at ei gilydd a newid ein prosesau mewnol mwyaf cyffredin i fod yn awtomatig er mwyn lleihau costau trafodiadau.
- Darlledwyd cyfanswm o 14 awr o gyfarfodydd y Cyngor yn 2016-17.
- Cawsom well dealltwriaeth o safbwyntiau trigolion a chynyddu ymatebion i ymgynghoriadau drwy ddefnyddio dyfais symudol neu lechen gyfrifiadurol mewn digwyddiadau ymgysylltu.

#### Manteisio ar ein hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion

- Dechreuodd gwaith adeiladu ar adeilad newydd Ysgol Gynradd Betws, Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw sydd wedi'i hadleoli ac adeilad newydd i Ysgol Gynradd Brynmenyn. Cynhaliwyd hefyd ymgynghoriad ar adleoli Ysgol Gynradd Pencoed a Champws Heol-y-cyw.
- Parhawyd i ad-drefnu ein hystâd weinyddol i ddarparu arbedion gwerth miliynau drwy leihau nifer y swyddfeydd a'r storfeydd yr ydym ni'n eu rheoli a symleiddio ein strwythur.

- Parhaodd y rhaglen i waredu asedau estynedig i wneud cynnydd da. Rhagorwyd ar ein targed o £4 miliwn y flwyddyn hon trwy gynhyrchu £5.625 miliwn o dderbyniadau cyfalaf.
- Am y bumed flwyddyn yn olynol, rydym wedi gwneud yn sylweddol well na'r targed o 3% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gyflawni newid o 12.79% mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc o adeiladu cyhoeddus annomestig.
- Cysylltodd cyfanswm o 66 o sefydliadau cymunedol, clybiau a chymdeithasau chwaraeon yn bennaf, â ni ynghylch rheoli 55 o wahanol asedau. Er na chafwyd unrhyw drosglwyddiadau hyd yn hyn, mae 19 o geisiadau ar wahanol gamau datblygu ar hyn o bryd.

#### Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid

- Yn ystod y flwyddyn, cafodd 231 o reolwyr eu hyfforddi i wella eu sgiliau rheoli pobl.
- Cafodd 295 o swyddogion eu hyfforddi i wella eu sgiliau laith Gymraeg.
- Cwblhaodd 59.1% o staff fodiwlau e-ddysgu ar ein gwefan Dysgu a Datblygu yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynydd o'i gymharu â 43.1% yn 2015-16.

#### Gwneud y gorau o'n gwariant ar nwyddau a gwasanaethau

- Sicrhawyd cydymffurfiaeth tendr o 100% yn ystod y flwyddyn.
- Ailstrwythurwyd yr Uned Gaffael Gorfforaethol, gan weithio'n agos â'r Trydydd Sector a BBaChau i sicrhau bod darparwyr lleol yn 'barod i dendro' a gwneud cynigion cystadleuol yn erbyn sefydliadau cenedlaethol.
- Parhawyd i gydweithio â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) a Busnes Cymru i drefnu digwyddiad tendro a chaffael pwrpasol ar y cyd ar gyfer y trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## Cyllid

Y llynedd, tua £440 miliwn oedd cyfanswm yr arian a wariwyd gennym ar gyflenwi gwasanaethau i'n trigolion a buddsoddi yn ein tirwedd a'n hisadeiledd. Daw'r cyfanswm sydd ar gael i ni ei wario o dair prif ffynhonnell, sef y rhai a restrir isod.

Roedd ein gwariant referniw net ar gyfer costau o ddydd i ddydd, megis cyflogau, cyfarpar, cyflenwadau a gwasanaethau yn £254.535 miliwn, a arweiniodd at danwariant o £356,000.

Roedd ein gwariant cyfalaf, sy'n cynrychioli ein gwariant ar ysgolion a seilwaith megis ffyrdd, pontydd ac adeiladau, yn £18.27 miliwn.

Derbyniwyd hefyd grantiau penodol, cyfanswm o £91.7 miliwn, ar gyfer rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

## Beth ddywedodd ein rheoleiddwyr amdanom

Archwiliwyd Cynllun Gwella 2016-17 y Cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ardystiodd fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i fod wedi gweithredu yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau. Ymgwymerodd hefyd â gwaith asesu gwelliannau dan dair thema: llywodraethu, defnyddio adnoddau, a chymau dilynol ar ôl Aseiad Corfforaethol. Daeth i'r casgliad fod y Cyngor yn cyflawni'r gofynion statudol sydd ganddo mewn cysylltiad â gwelliant parhaus.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) archwiliad o'r gwasanaethau plant. Dangosodd yr adroddiad fod rhywfaint o'r arferion a welsant yn amrywio a bod angen gwneud rhagor ym maes penderfynu, asesu risg, sicrwydd ansawdd ac ymgysylltu amlasiantaeth. Gwnaeth AGGCC 5 argymhelliad a roddwyd ar waith gennym mewn cynllun gwella.

## Ein Hamcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2017-18

Ein hamcanion gwella a llesiant ar gyfer 2017-18, sy'n aros heb eu newid, fel y'u diffinnir yn ein Cynllun Corfforaethol 2016-20, yw'r canlynol:

- Cefnogi economi lwyddiannus
- Helpu pobl i fod yn hunanddibynnol
- Defnyddio adnoddau'n ddoethach

## Eisiau gwybod mwy?

Mae copïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd lleol. Cewch hefyd gysylltu â'r Tîm Gwella Corfforaethol ar (01656) 643224 neu anfon neges e-bost i [improvement@bridgend.gov.uk](mailto:improvement@bridgend.gov.uk).

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.